WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2018 – **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**


Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1008A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol gan Ann-Marie Harkin, David Thomas, Gillian Gillett a Katrina Febry.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 5

Negeseuon allweddol 6

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 7

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18 ond, wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio 7

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ac nid oedd angen gosod adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn gan fod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei dyletswyddau ariannol statudol 8

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 9

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei threfniadau llywodraethu ac, er bod systemau rheolaeth fewnol yn effeithiol ar y cyfan, mae cynnydd yn dal i gael ei wneud tuag at gwblhau fframwaith sicrwydd y bwrdd 9

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dull cynllunio strategol yn unol â'i gweledigaeth hirdymor, ond mae'r capasiti i gyflawni a rheoli newid strategol yn gyfyngedig ac mae angen deall cost gwasanaethau yn well 11

Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithlu a'i hasedau ariannol a ffisegol yn dda o ddydd i ddydd ac mae'n cymryd camau i gryfhau trefniadau i gyflawni arbedion ariannol, ond mae cynnydd o ran safoni rheolaeth gorfforaethol technoleg a rheoli gwybodaeth wedi bod yn araf 12

Mae fy rhaglen waith ehangach wedi dod o hyd i rai enghreifftiau o arfer da, ynghyd â chyfleoedd i gryfhau rhai trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, darbodusrwydd ac effeithiolrwydd 13

Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau 14

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 16

Atodiad 2 – ffi archwilio 17

Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol 18

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2018. Ymgymerais â'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

2 Rwyf wedi adrodd fy nghanfyddiadau o dan y penawdau canlynol:

- Negeseuon allweddol
- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

3 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

4 Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2018.

5 Mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2018 a sut yr aed i'r afael â nhw yn ystod yr archwiliad.

6 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar 23 Ionawr 2019, a bydd pob aelod yn cael copi ohono. Anogwn yr Ymddiriedolaeth i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

7 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio mae fy nhîm wedi ei gyflawni dros y 12 mis diwethaf.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

8 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon. Felly, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar eu paratoad.

9 Ni nododd fy archwiliad unrhyw drafodion ariannol perthnasol yng nghyfrifon 2017-18 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn cyd-fynd ag awdurdodau, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18.

10 Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae ganddi gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith. Gan nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu nodi, ni roddwyd unrhyw adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

11 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig 2018 yn yr Ymddiriedolaeth wedi dod i'r casgliad:

- bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei threfniadau llywodraethu ac, er bod systemau rheolaeth fewnol yn effeithiol ar y cyfan, mae cynnydd yn dal i gael ei wneud tuag at gwblhau fframwaith sicrwydd y bwrdd;
- bod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dull cynllunio strategol yn unol â'i gweledigaeth hirdymor, ond mae'r capasiti i gyflawni a rheoli newid strategol yn gyfyngedig ac mae angen deall cost gwasanaethau yn well; a
- bod yr Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithlu a'i hasedau ariannol a ffisegol yn dda o ddydd i ddydd ac mae'n cymryd camau i gryfhau trefniadau i gyflawni arbedion ariannol, ond mae cynnydd o ran safoni rheolaeth gorfforaethol technoleg a rheoli gwybodaeth wedi bod yn araf.

12 Mae fy rhaglen waith ehangach wedi dod o hyd i rai enghreifftiau o arfer da, ynghyd â chyfleoedd i gryfhau rhai trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, darbodusrwydd ac effeithiolrwydd:

- gallai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei hymagwedd strategol at gyfarpar clinigol a threfniadau gweithredol a gwella ei gwaith rheoli risgiau gyda system meddalwedd bwrpasol; ac
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'm gwaith blaenorol, ond mae mwy o waith i'w wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion o Asesiad Strwythuredig 2017 yn llawn.

13 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, ond nid yw wedi gwneud defnydd effeithiol o'r data a ryddhawyd i ganfod twyll a gordaliadau. Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

14 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

15 Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a’i hincwm a’i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt wedi’u paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw’r rhan honno o’r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i’w harchwilio wedi’i pharatoi’n briodol;
- a yw’r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda’r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â nhw; a
- rheoleidd-dra’r gwariant a’r incwm yn y datganiadau ariannol.

16 Wrth roi’r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â’r Cod Ymarfer Archwilio a’r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

## Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18 ond, wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn rhai materion i sylw swyddogion a’r Pwyllgor Archwilio

### Rwyf wedi dod i’r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi’u paratoi’n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth sy’n berthnasol i archwilio’r cyfrifon

17 Derbyniais y cyfrifon drafft yn unol â’r dyddiadau terfyn rhagnodedig ac roedd y papurau gwaith ategol o ansawdd da.

18 Adolygais y rheolaethau mewnol hynny a oedd yn berthnasol i’r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i’r risg o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth.

19 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy

Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 29 Mai 2018. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi a rhoi sylwadau ar y materion allweddol a nodwyd.

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Gwnaed sawl addasiad i'r cyfrifon drafft. Roedd yr addasiadau hyn yn ddibwys eu natur ac ni chawsant unrhyw effaith ar warged honedig yr Ymddiriedolaeth. |
| Materion sylweddol eraill | Ni nodais unrhyw faterion ansoddol neu feintiol sylweddol eraill yn ymwneud â'r cyfrifon. |

20 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais adolygiad o'r ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad fod y wybodaeth gyfunol gyfatebol yn cyd-fynd â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2018 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

21 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol wedi'i gwblhau, a chyhoeddais farn ddiamod ar y cyfrifon ar 3 Rhagfyr 2018.

## Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ac nid oedd angen gosod adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn gan fod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei dyletswyddau ariannol statudol

### Ni nododd fy archwiliad unrhyw drafodion ariannol perthnasol yng nghyfrifon 2017-18 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn cyd-fynd ag awdurdodau, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18

22 Rhaid i drafodion ariannol yr Ymddiriedolaeth gyd-fynd â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhaid bod ganddi'r pwerau i dderbyn yr incwm a gwneud y gwariant sydd ganddi. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau incwm neu wariant perthnasol nad oes gan yr Ymddiriedolaeth yr hawl i'w derbyn neu eu gwneud.

Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae ganddi gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith. Gan nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu nodi, ni roddwyd unrhyw adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth

23 Mae gennyf y pŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â'm barn lle rwyf eisiau tynnu sylw at faterion. Ni chyhoeddais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon gan fod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei dyletswyddau ariannol ac nad oedd unrhyw faterion eraill yr oedd angen eu nodi.

24 Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb yn 2017-18 a chadw gwarged bach o £49,000 (mae hyn yn cynnwys £28,000 sy'n ymwneud â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, sef corff a gynhelir gan yr Ymddiriedolaeth). Llwyddodd hefyd i adennill ei gostau ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2015-2018.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

25 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud gwaith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth;
- adolygu ymagwedd yr Ymddiriedolaeth at gynllunio strategol;
- archwilio'r trefniadau sydd ar waith i reoli cyllid, gweithlu, asedau a phrosesau caffael yr Ymddiriedolaeth;
- adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol; ac
- asesu'r defnydd o ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).

26 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u hamlinellu isod.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei threfniadau llywodraethu ac, er bod systemau rheolaeth fewnol yn effeithiol ar y cyfan, mae cynnydd yn dal i gael ei wneud tuag at gwblhau fframwaith sicrwydd y bwrdd

27 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, y ffordd mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cyflawni eu busnes ac i ba raddau mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd

clir. Edrychais hefyd ar y wybodaeth mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ei derbyn i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawniad amcanion sefydliadol. Deuthum i'r casgliadau canlynol.

28 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i gefnogi effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau, ond mae yna le i wella tryloywder mewn perthynas â mynediad y cyhoedd at ddogfennau**. Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod ymddygiad y Bwrdd yn effeithiol ar y cyfan a bod perthynas adeiladol rhwng swyddogion gweithredol ac aelodau annibynnol. Yn 2018, creodd yr Ymddiriedolaeth bwyllgor newydd i helpu'r Bwrdd i graffu ar y rhaglen i adeiladu ysbyty canser newydd ac, yn 2019, bydd yn sefydlu Pwyllgor Partneriaeth Academaidd fel un o ofynion statws prifysgol newydd yr Ymddiriedolaeth. Deuthum i'r casgliad fod llifau sicrwydd a gwybodaeth clir rhwng y pwyllgorau a'r Bwrdd. Fodd bynnag, deuthum i'r casgliad fod sawl dogfen allweddol a ddylai fod ar gael i'r cyhoedd ar goll o wefan yr Ymddiriedolaeth.

29 **Mae gwaith i ddatblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd a phrosesau rheoli risg yn parhau.** Cychwynnodd y gwaith o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017; er bod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud, mae'r gwaith wedi disgyn ar ei hôl hi. Deuthum i'r casgliad fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud sawl gwelliant i'r gofrestr risg gorfforaethol yn ystod 2018, gan gynnwys darparu mwy o eglurder ar y camau a gymerir/sydd eu hangen i liniaru risg a'r trefniadau uwchgyfeirio ar gyfer pob risg. Y llynedd, nodais y cymhlethdod a'r diffyg eglurder mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru[1]. Eleni, rwyf wedi gweld bod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau cadarnhaol i egluro a gwella'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

30 **Mae rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth yn effeithiol ar y cyfan ac mae gwelliannau wedi'u gwneud i drefniadau llywodraethu gwybodaeth, ond mae yna fylchau mewn llifau gwybodaeth yn ymwneud ag archwilio clinigol**. Mae Rheolau Sefydlog, Cynllun Cadw a Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yn gyfredol. Deuthum i'r casgliad fod yr Ymddiriedolaeth wedi defnyddio dull rhagweithiol i baratoi ac ymateb i ofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'i fod wrthi'n cwblhau Strategaeth Gwella Seiberddiogelwch ar gyfer nodi a chyflwyno camau i liniaru risgiau bygythiadau seiberddiogelwch. Fodd bynnag, deuthum o hyd i wendidau hefyd yn y gwaith o graffu ar gynlluniau ac adroddiadau archwilio clinigol. Er bod adroddiadau perfformiad yn cynnwys y dangosyddion perfformiad priodol, mae yna le i wella'r naratif a'r ffordd mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i helpu i ddehongli data.

[1] Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal tri chorff; Technoleg Iechyd Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae gwahanol drefniadau cynnal ar gyfer pob un o'r tri chorff a gynhelir, ac mae trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth ar gyfer Technoleg Iechyd Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn fwy syml na'r rhai ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

31 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth broses ar gyfer olrhain argymhellion Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol i'r Pwyllgor Archwilio.** Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod gan y Pwyllgor Archwilio ddull o olrhain cynnydd i gymryd camau mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan archwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru yn unig) a mewnol. Mae'r system fonitro yn galluogi'r Pwyllgor i nodi ble mae cynnydd wedi disgyn ar ei hôl hi. Fodd bynnag, rwyf wedi nodi bod yna le i ddarparu sicrwydd pellach i'r Pwyllgor Archwilio bod y camau a gymerir i fynd i'r afael ag argymhellion yn briodol. Mae fy asesiad strwythuredig eleni yn nodi sawl maes lle mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd yn erbyn fy argymhellion blaenorol, ond mae mwy o waith i'w wneud cyn i'r camau hyn gael eu cwblhau yn llawn. Rwy'n trafod hyn ymhellach ym mharagraff 41.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dull cynllunio strategol yn unol â'i gweledigaeth hirdymor, ond mae'r capasiti i gyflawni a rheoli newid strategol yn gyfyngedig ac mae angen deall cost gwasanaethau yn well

32 Archwiliodd fy ngwaith sut mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â phartneriaid ac yn amlinellu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad. Asesais hefyd pa mor dda mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio cyflawniad ei hamcanion a sut mae'n monitro cynnydd o ran cyflwyno'r cynlluniau. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

33 **Mae'r Bwrdd yn gwneud cynnydd da o ran adolygu ei weledigaeth a'i gyfeiriad strategol hirdymor.** Deuthum i'r casgliad fod amcanion strategol presennol yr Ymddiriedolaeth wedi'u diffinio'n glir a'u halinio i'r weledigaeth a'r nodau. Ar y cyfan, mae aelodau'r bwrdd yn teimlo'n rhan o'r broses o osod cyfeiriad strategol yr Ymddiriedolaeth. Yn ystod 2018, dechreuodd y bwrdd adolygu ei weledigaeth a'i gyfeiriad strategol hirdymor. Canolbwyntiwyd ar weledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer system iechyd a gofal cymdeithasol integredig (a amlinellir yn **Cymru Iachach**), rôl yr Ymddiriedolaeth i'r dyfodol mewn perthynas â chyrff a gynhelir a'r cyfyngiadau ariannol a gweithlu a all effeithio ar y cyfeiriad strategol.

34 **Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwella ei dull cynllunio strategol a gefnogir gan y galw a gwaith modelu capasiti, ond mae angen deall cost gwasanaethau yn well.** Cafodd Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) 2018-2021 yr Ymddiriedolaeth ei ddatblygu a'i gymeradwyo o fewn yr amserlen ofynnol yn ystod 2018. Mae'r IMTP yn darparu'r blaenoriaethau strategol is-adrannol penodol a nodwyd; pump ar gyfer VCC ac wyth ar gyfer WBS. Yn sail i bob blaenoriaeth strategol mae nodau allweddol/cyflawnadwy gyda disgrifiadau o'r camau a gymerir ym mhob blwyddyn o'r IMTP i gefnogi eu cyflawniad, ac mae cyfyngiadau ariannu wedi'u nodi. Rwyf wedi nodi o'r blaen bod yr Ymddiriedolaeth yn ei chael hi'n anodd darbwyllo comisiynwyr Canolfan Ganser Felindre (VCC) bod y cyllid mae VCC yn ei dderbyn yn annigonol i gefnogi datblygiad gwasanaethau a bod yr

Ymddiriedolaeth yn ei chael hi'n anodd disgrifio'r galw a chost wirioneddol y gwasanaethau canser a ddarperir yn VCC. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu model costio ariannol newydd a fydd o fudd i drafodaethau ariannu yn y dyfodol rhwng yr Ymddiriedolaeth a chomisiynwyr VCC, er ei fod ar ei hôl hi ar hyn o bryd.

35 **Mae capasiti'r Ymddiriedolaeth i gyflawni a rheoli newid strategol yn gyfyngedig ac yn peri risg i gynlluniau strategol**. Yn 2018, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad o gapasiti uwch reolwyr i reoli newid, a nododd fod y capasiti ar lefel uwch reolwyr yn gyfyngedig. Adeg ysgrifennu hwn, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod yn datblygu cynlluniau i wella capasiti'r tîm uwch reoli i sicrhau goruchwyliaeth strategol ddigonol ar gyfer cyflawni cynlluniau gweithredol a datblygu'r rhaglenni gweddnewid. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi bylchau mewn capasiti a/neu allu mewn rhai swyddogaethau cymorth craidd, ac mae capasiti cyfyngedig yr Ymddiriedolaeth o ran rheoli newid yn peri risg i gyflawni gweddnewid. Deuthum i'r casgliad hefyd fod yna le i'r Ymddiriedolaeth wella ei hadroddiadau cynnydd yn erbyn targedau a cherrig milltir IMTP trwy wahaniaethu rhwng effeithiau bwriedig ac effeithiau a gyflawnwyd.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithlu a'i hasedau ariannol a ffisegol yn dda o ddydd i ddydd ac mae'n cymryd camau i gryfhau trefniadau i gyflawni arbedion ariannol, ond mae cynnydd o ran safoni rheolaeth gorfforaethol technoleg a rheoli gwybodaeth wedi bod yn araf

36 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli ei gweithlu, ei harian a'i hasedau ffisegol eraill i gefnogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Ystyriais hefyd y trefniadau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

37 **Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag absenoldeb salwch a llesiant staff ac i wella'r prosesau recriwtio a chadw staff.** Deuthum i'r casgliad fod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau absenoldeb salwch yr Ymddiriedolaeth ac yn gwneud gwaith monitro uwch ar y rhesymau dros absenoldeb salwch. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno sawl menter i wella lles meddyliol yn y gweithle. Mae recriwtio a chadw yn dal i gyflwyno her sylweddol ac mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i wella prosesau recriwtio a denu ymgeiswyr heb eu hail.

38 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cyfrifyddu effeithiol ac mae'n cymryd camau i gryfhau trefniadau i gyflawni arbedion ariannol.** Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb yn 2017-18. Deuthum i'r casgliad fod yr Ymddiriedolaeth yn lleihau ei dibyniaeth ar arbedion anghylchol ond, yn chweched mis 2018-19, roedd angen iddi nodi £203,000 o arbedion ac roedd yn rhagweld na fyddai'n cyflawni'r holl arbedion gofynnol. Yn chweched mis 2018-19, adroddodd yr Ymddiriedolaeth orwariant bach yn erbyn cyllideb o £67,000, ond mae'n rhagweld

y bydd yn adennill ei chostau erbyn diwedd y flwyddyn trwy gymryd camau unioni, gan gynnwys annog rheolwyr i ganolbwyntio mwy ar gyflawni arbedion (gan gynnwys trefniadau llywodraethu adennill costau newydd) a defnyddio cronfeydd heb eu dyrannu yr Ymddiriedolaeth. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau monitro ariannol misol sydd wedi hen ennill eu plwyf, ac mae wedi ymateb i'n hargymhelliad asesu strwythuredig 2017 a gwneud gwelliannau i'w hadroddiadau ariannol.

39 **Mae gwaith yr Ymddiriedolaeth o ran gweinyddu a chynnal a chadw'r ystâd o ddydd i ddydd yn cael ei reoli'n dda, ond mae cynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran safoni rheolaeth gorfforaethol technoleg a rheoli gwybodaeth wedi bod yn araf.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da o ran rheoli ystadau ac asedau ac ymateb i flaenoriaethau newydd. Rhoddodd adroddiad Archwilio Mewnol 'sicrwydd rhesymol' i ymagwedd strategol yr Ymddiriedolaeth at dechnoleg a rheoli gwybodaeth ym mis Awst 2017. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad hefyd fod gwaith goruchwylio a llywodraethu strategol mewn perthynas â thechnoleg a rheoli gwybodaeth wedi galluogi isadrannau i ddatblygu eu prosesau eu hunain, sydd wedi arwain at ddiffyg cysondeb ac integreiddio ar draws yr Ymddiriedolaeth. Deuthum i'r casgliad nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi cwblhau ei hadolygiad o wybodeg i nodi pa rannau o swyddogaethau technoleg a rheoli gwybodaeth isadrannau y gellid eu hintegreiddio.

## Mae fy rhaglen waith ehangach wedi dod o hyd i rai enghreifftiau o arfer da, ynghyd â chyfleoedd i gryfhau rhai trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, darbodusrwydd ac effeithiolrwydd

### Gallai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei hymagwedd strategol at gyfarpar clinigol a threfniadau gweithredol a gwella ei gwaith rheoli risgiau gyda system meddalwedd bwrpasol

40 Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth system meddalwedd bwrpasol ar gyfer cyfarpar clinigol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyfan, ond mae wrthi'n caffael un. Mae gan Wasanaeth Gwaed Cymru (WBS) feddalwedd cyfarpar clinigol pwrpasol. Fodd bynnag, mae absenoldeb system gyfatebol yn VCC yn golygu nad yw hi'n rhwydd sefydlu statws cynnal a chadw presennol cyfarpar, lleoli cyfarpar ac archwilio cydymffurfiaeth â'r polisi cyfarpar clinigol, yn VCC ac ar draws yr Ymddiriedolaeth, oherwydd natur dameidiog y wybodaeth. Deuthum i'r casgliad fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau ar waith i gyhoeddi hysbysiadau diogelwch a rhannu dysgu o ddigwyddiadau, ond nodais senario penodol lle gallai'r Ymddiriedolaeth fod wedi colli cyfle i ddefnyddio dysgu i wella ei hymateb i fater yn ymwneud â diogelwch meddygol. Er bod gan yr Ymddiriedolaeth bolisi dyfeisiau meddygol, deuthum i'r casgliad nad oedd yr holl bolisïau cysylltiedig yn gyfredol. Nododd fy ngwaith y byddai egluro rôl arweinwyr gweithredol, rheolwyr a gweithgor allweddol yn cryfhau goruchwyliaeth strategol ar gyfer cyfarpar clinigol. Mae sgiliau

caffael yn amrywio rhwng is-adrannau, a byddai rhai aelodau staff yn elwa ar hyfforddiant pellach yn drafftio achosion busnes, ac mae yna le i wella'r gwaith o lywodraethu a monitro caffael cyfarpar meddygol.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'm gwaith blaenorol, ond mae mwy o waith i'w wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion o Asesiad Strwythuredig 2017 yn llawn

41 Mae fy ngwaith wedi dod i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o Asesiad Strwythuredig 2017, er bod y cynnydd hwnnw'n gallu bod yn araf ar adegau. Nodwyd 11 o argymhellion yn Asesiad Strwythuredig 2017, ac mae cynnydd wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion, ond mae llawer mwy o waith i'w wneud i fynd i'r afael â chwech o'r argymhellion yn llawn.

42 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad archwilio o'm hadroddiad ar gynllunio ar gyfer rhyddhau (Ionawr 2018), ac mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â'm hadroddiad ar gyfarpar clinigol (Gorffennaf 2018).

## Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau

43 Ymarfer paru data bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau. Mae'n gwneud hyn trwy baru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a all fod yn dwyllodrus a gwallus. Mae'n adnodd hynod effeithiol i ganfod ac atal twyll a gordaliadau ac er mwyn helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

44 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfranogwr gorfodol. Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth y canlyniadau o ymarfer paru data 2016 ym mis Ionawr 2017 ond, fel yr adroddwyd yn Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017, roedd yn araf i adolygu'r ymarferion paru data. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ers hynny, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd effeithiol o'r NFI ac nid oes unrhyw dystiolaeth bod rhai ymarferion paru risg uchel wedi'u hadolygu. Yn ogystal, mewn llawer o achosion lle cofnodir bod ymarferion paru data wedi'u hadolygu, nid oes digon o wybodaeth wedi'i chofnodi ar y rhaglen we i nodi sut y cafodd yr ymarferion eu hadolygu. Mae yna enghreifftiau hefyd lle mae rhaglen we yr NFI yn cofnodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn ymholiadau gan gyrff eraill y GIG ynghylch ymarferion paru data, ond nad oes unrhyw gofnod o ymatebion yn cael eu darparu.

45 Ym mis Hydref 2018, cyflwynodd cyrff a oedd yn cymryd rhan ddata ar gyfer yr ymarfer paru data nesaf. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn ar gael yn gynnar yn 2019. Yn fy asesiad strwythuredig 2018, rwyf wedi argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth roi cynllun gweithredu ar waith i sicrhau bod yr ymarferion paru y

mae'n eu derbyn o'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu ac, yn ôl yr angen, eu hymchwilio mewn ffordd amserol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

### Arddangosyn 3: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae’r tabl canlynol yn rhestru’r adroddiadau a gyflwynwyd i’r Ymddiriedolaeth yn 2018.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2018 |
| Llythyr i Reolwyr | Gorffennaf 2018 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Tachwedd 2018 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol FHOT | Tachwedd 2018 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2018 | Rhagfyr 2018 |
| Rheoli Cyfarpar Clinigol | Mehefin 2018 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2018 | Mawrth 2018 |

### Arddangosyn 4: gwaith archwilio perfformiad sy’n dal i fynd rhagddo

Mae un archwiliad perfformiad sy’n dal i fynd rhagddo yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir hwn yn y tabl canlynol, gyda’r dyddiad cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Codio clinigol | Mawrth 2019 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2018 ffi archwilio arfaethedig o £208,996 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol (ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd) yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol sylweddol

### Arddangosyn 5: risgiau archwilio sylweddol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2018 y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2018. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. | Ystyriodd fy ngwaith archwilio y ffactorau risg a amlinellir yn ISA240 ac ni nododd ein gwaith archwilio arfaethedig unrhyw dystiolaeth o reolwyr yn diystyru rheolaethau. |
| Er ei bod yn rhagweld sefyllfa ariannol lle adenillir costau ar gyfer diwedd y flwyddyn, mae alldro'r Ymddiriedolaeth hyd at 31 Ionawr 2018 yn dangos diffyg bach o £22,000. Byddai methu ag adennill costau erbyn 31 Mawrth 2018 yn arwain at yr Ymddiriedolaeth yn methu â chyflawni ei dyletswydd ariannol gyntaf, felly mae mwy o risg y gallai penderfyniadau ac amcangyfrifon rheolwyr sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol fod yn unochrog mewn | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar brofi rhannau o'r datganiadau ariannol a allai fod yn unochrog. | Ystyriodd fy nhîm archwilio y rhannau o'r cyfrifon sy'n fwy tebygol o fod yn unochrog, gan adolygu:<br>• amcangyfrifon a phenderfyniadau cyfrifyddu a wnaed gan reolwyr am fias;<br>• credydwyr am atebolrwydd heb ei gofnodi; a<br>• dyledwyr am orddatganiad o incwm sy'n ddyledus.<br>Ni chododd unrhyw faterion o'r gwaith a gyflawnwyd. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| ymdrech i gyflawni'r ddyletswydd ariannol.<br>Lle mae'r Ymddiriedolaeth yn methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol, byddaf yn rhoi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn nodi'r methiant. | | |
| Yn 2017-18, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ailbrisio ei thir a'i hadeiladau fel rhan o'r rhaglen ailbrisio pum mlynedd. O ystyried bod gwerth yr asedau hyn a gedwir gan yr Ymddiriedolaeth yn dod i oddeutu £106 miliwn, maent yn berthnasol i'r datganiadau ariannol. Yn ogystal, bydd y Prisiwr Dosbarth yn defnyddio dull prisio diwygiedig.<br>Mae yna risg nad yw'r ailbrisio'n cael ei adlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol ac y gallai'r datganiadau ariannol gael eu cam-ddatgan. | Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio'r broses o ailbrisio tir ac adeiladau ac yn sicrhau'r driniaeth gyfrifyddu gywir. | Adolygodd fy nhîm archwilio yr ailbrisiad o asedau'r Ymddiriedolaeth, na nododd unrhyw dystiolaeth nad oedd yr ailbrisiad wedi'i gyfrif yn gywir na'i ddatgelu yn y cyfrifon. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru